## SCHEDULE 2

Article 5

### Forms in Welsh

Form 1

(i) “Ai chi yw'r person a gofrestrwyd yn y gofrestr etholwyr seneddol ar gyfer yr etholiad hwn fel hyn (*darllenwch y cofnod llawn yn y gofrestr*)?”

(ii) “A ydych eisoes wedi pleidleisio yma neu rywle arall, yn yr is-etholiad [etholiad cyffredinol] hwn, heblaw fel dirprwy ar ran rhyw berson arall?”

Form 2

(i) “Ai chi yw'r person y gwelir ei enw fel A.B. yn y rhestr ddirprwyon ar gyfer yr etholiad hwn, fel un sydd â hawl i bleidleisio fel dirprwy ar ran C.D.?”

(ii) “A ydych eisoes wedi pleidleisio yma neu rywle arall, yn yr is-etholiad [etholiad cyffredinol] hwn, fel dirpwy ar ran C.D.?”

Form 3

“Ai chi yw gŵr [gwraig], rhiant, tadcu [mamgu], brawd [chwaer], plentyn, neu ŵyr [wyres] C.D.?”

“A ydych eisoes wedi pleidleisio yn yr etholiad hwn ac yn yr etholaeth hon ar ran dau berson nad ydych yn ŵr [gwraig], rhiant, tadcu [mamgu], brawd [chwaer], plentyn, neu ŵyr [wyres] iddynt?”

Form 4ETHOL CYNRYCHIOLYDDI WASANAETHU YN SENEDD EWROP

Etholaeth ..........................................................................................................

Yr ydym ni, sydd â'n henwau isod, ac sy'n etholwyr yn yr Etholaeth a enwyd, drwy hyn yn enwebu'r person a enwir isod i fod yn ymgeisydd yn yr etholiad a nodwyd.

| Cyfenw'r ymgeisydd | Enwau eraill yn llawn | Disgrifiad | Cyfeiriad ei gartref yn llawn |
|---|---|---|---|
| | | | |

| Llofnodion | Rhif Etholiadol (gweler nodyn 3) Llythyren wahaniaethol | Rhif |
|---|---|---|
| Cynigydd .................................... | .................................... | .................................... |
| Eilydd .................................... | .................................... | .................................... |
| Yr ydym ni sydd â'n henwau isod, ac sy'n etholwyr yn yr Etholaeth a enwyd, yn cytuno drwy hyn â'r enwebiad hwn, | | |
| 1. .................................... | .................................... | .................................... |
| 2. .................................... | .................................... | .................................... |
| 3. .................................... | .................................... | .................................... |
| 4. .................................... | .................................... | .................................... |
| 5. .................................... | .................................... | .................................... |
| 6. .................................... | .................................... | .................................... |
| 7. .................................... | .................................... | .................................... |
| 8. .................................... | .................................... | .................................... |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 9. | | | |
| 10. | | | |
| 11. | | | |
| 12. | | | |
| 13. | | | |
| 14. | | | |
| 15. | | | |
| 16. | | | |
| 17. | | | |
| 18. | | | |
| 19. | | | |
| 20. | | | |
| 21. | | | |
| 22. | | | |
| 23. | | | |
| 24. | | | |
| 25. | | | |
| 26. | | | |
| 27. | | | |
| 28. | | | |

## NODIADAU

1. Tynnir sylw ymgeiswyr ac etholwyr at y rheolau ynglŷn â llenwi papurau enwebu, ac amodau eraill sy'n ymwneud ag enwebu a gynhwysir yn y rheolau etholiadau seneddol yn Atodiad 1, Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 fel y'u diwygiwyd ac fel y cawsant eu cymhwyso a'u newid ar gyfer ethol cynrychiolwyr y Deyrnas Gyfunol i'r Senedd gan Reolau Etholiadau Senedd Ewrop 1986.

2. Lle'r adnabyddir ymgeisydd yn arferol wrth ryw deitl gellir ei ddisgrifio wrth y teitl hwnnw fel pe bai'n gyfenw iddo.

3. Rhif etholiadol person yw ei rif yn y gofrestr a ddefnyddir yn yr etholiad (yn cynnwys llythyren wahaniaethol y dosbarth pleidleisio seneddol y mae wedi'i gofrestru ynddo) ac eithrio cyn i'r gofrestr gael ei chyhoeddi y gellir defnyddio yn lle hynny ei rif (os oes un) yn y rhestr etholwyr ar gyfer y gofrestr honno.

4. Ni chaiff etholwr roi enw wrth fwy nag un papur enwebu yn yr un etholiad.

5. Ni chaiff person sydd â'i enw ar y gofrestr neu'r rhestr etholwyr roi ei enw wrth bapur enwebu os yw'r cofnod yn rhoi fel dyddiad pryd y daw'n ddigon hen i bleidleisio ddyddiad ar ôl y diwrnod a benodir ar gyfer yr etholiad.

Form 5CYFARWYDDYD I BLEIDLEISWYR WRTH BLEIDLEISIO

**1.** Pan roir i chi bapur pleidleisio gwnewch yn siŵr iddo gael ei stampio â'r marc swyddogol.

**2.** Ewch i un o'r cabanau pleidleisio. Rhowch groes (X) yn y blwch ar ochr dde'r papur pleidleisio gyferbyn ag enw yr ymgeisydd yr ydych am bleidleisio trosto.

**3.** Plygwch y papur yn ddau. Dangoswch y marc swyddogol i'r swyddog llywyddu, ond peidiwch â gadael i neb weld eich pleidlais. Rhowch y papur pleidleisio yn y blwch pleidleisiau a mynd allan o'r orsaf bleidleisio.

**4.** Pleidleisiwch i un ymgeisydd yn unig. Peidiwch â rhoi unrhyw farc arall ar y papur pleidleisio neu fe all na chaiff eich pleidlais ei chyfrif.

**5.** Os bydd i chi drwy gamgymeriad ddifetha eich papur pleidleisio, ewch a'i ddangos i'r swyddog llywyddu a gofyn am un arall.

Form 6

*Nodwch berthynas y cydymaith a'r pleidleisiwr

Gwnaed cais i mi, A.B. o .................. gynorthwyo C.D. (*yn achos person dall sy'n pleidleisio fel dirprwy ychwaneger* pleidleisio fel dirprwy ar ran M.N.) sef rhif ......... ar y gofrestr i gofnodi ei bleidlais yn yr etholiad a gynhelir yn awr yn yr etholaeth hon yn datgan drwy hyn [fod gennyf hawl i bleidleisio fel etholwr yn yr etholiad a enwyd] [fy mod yn* .. . i'r pleidleisiwr hwnnw ac wedi cyrraedd fy 18 mlwydd oed], ac na fu i mi o'r blaen gynorthwyo unrhyw bleidleisiwr dall [ac eithrio E.F., o, ....................] i bleidleisio yn yr etholiad a enwyd.

(Llofnodwyd) A.B.

y ......... dydd o fis ......... 19

Yr wyf fi y gwelir fy llofnod isod sef swyddog llywyddu gorsaf bleidleisio ......... ar gyfer Etholaeth ................ yn tystio drwy hyn fod y datganiad uchod wedi ei ddarllen i ddechrau yng nghlyw'r datganwr a enwir uchod, a'i fod ef wedi ei lofnodi wedyn yn fy ngŵydd.

(Llofnodwyd) G.H.

y ......... dydd of fis ......... 19

am munud wedi ..... [a.m.] [p.m.]

NODYN:–Os bydd y person sy'n gwneud y datganiad uchod yn ystyriol ac yn fwriadol yn gwneud datganiad ffug ynglŷn ag unrhyw fater o bwys, bydd yn euog o drosedd.